Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Bwletin y Pwyllgor

Gwanwyn - Haf 2024

## Croeso i'n seithfed diweddariad Pwyllgor

Dyma'r seithfed bwletin ar gyfer Pwyllgor Economi, Masnach a Materion gwledig y Senedd. Mae'n rhoi trosolwg o waith diweddaraf y Pwyllgor a'r gwaith sydd ganddo ar y gweill, er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor ac i ymgysylltu ag ef.

Cafodd ei baratoi gan y tîm Clercio sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw sylwadau, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

### Manylion cyswllt


Gallwch anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor:
**SeneddEconomi@senedd.cymru**

Ffoniwch ni: 0300 200 6565

Dilynwch ni ar Twitter: **@SeneddEconomi**

Gwefan: **https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/**

## Gwaith presennol

### Dyfodol Dur yng Nghymru

Yn dilyn y cyhoeddiad gan Tata Steel ar 19 Ionawr 2024 ynghylch cau ffwrneisi chwyth ar ei safle ym Mhort Talbot, mae dyfodol dur yng Nghymru wedi bod yn flaenllaw ym meddyliau'r Aelodau ac agenda'r Pwyllgorau. Clywodd yr Aelodau gan Tata Steel a Gweinidog yr Economi ar 7 Chwefror, ac wedi hynny rhyddhaodd y Cadeirydd ddatganiad, ac yna clywodd yr Aelodau gan yr undebau dur a dau banel o arbenigwyr yn ei gyfarfod ar 29 Chwefror. Yna cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod arbennig ar 14 Mawrth gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r Pwyllgor yn parhau i weithio ar y mater hwn ac mae wedi ysgrifennu at yr Adran Busnes a Masnach ynghylch diogelu'r cyflenwad dur sgrap ar gyfer y ffwrnais arc trydan newydd arfaethedig ar safle Port Talbot, ac at Tata yn dilyn y cyhoeddiad ar 18 Mawrth y byddai'r ffyrnau golosg yn cael eu cau'n gynnar.

### Economi Werdd

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i'r Economi Werdd gyda sesiynau tystiolaeth lafar yn cael eu cynnal drwy gydol tymhorau'r gwanwyn a'r haf.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel rhan o'r ymchwiliad hwn, a gynhaliwyd rhwng 27 Ionawr a 7 Mawrth ac a gafodd 37 o ymatebion.

### Banc Datblygu Cymru

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru gyda sesiynau tystiolaeth lafar yn cael eu cynnal drwy gydol tymhorau'r gwanwyn a'r haf.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad fel rhan o'r ymchwiliad hwn, a gynhaliwyd rhwng 16 Tachwedd a 4 Ionawr, ac a gafodd 8 ymateb.


### Ymchwil a Datblygu

Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad fel rhan o ymchwiliad undydd i Ymchwil a Datblygu, rhwng 4 Hydref a 15 Tachwedd, a chafodd 15 o ymatebion.

Ar 30 Tachwedd, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan gyrff cyllido, sefydliadau addysg uwch, a busnesau.

Bydd adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar ôl Pasg 2024.

## Ynni Niwclear ac Economi Cymru




Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad 'Ynni Niwclear ac Economi Cymru' ar 21 Chwefror 2024, cyn y cyhoeddiad bod Llywodraeth y DU wedi prynu safle'r Wylfa yng Ngogledd Cymru.

Yn ogystal â cheisio ymateb gan Lywodraeth Cymru, gwnaeth y Pwyllgor hefyd ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, Llywodraeth y DU, am ymateb i argymhelliad 1.

Mae dadl ar yr adroddiad wedi'i threfnu ar gyfer y Cyfarfod Llawn dydd Mercher 17 Ebrill.

## Gweithgareddau diweddar

### Cyswllt Ffermio

Ar 22 Chwefror cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd yn canolbwyntio ar barodrwydd a chapasiti Cyswllt Ffermio i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol sy'n ofynnol o dan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy o 2025 ymlaen, yn ogystal â chefnogi ffermwyr yn ystod y cyfnod pontio. Clywodd y Pwyllgor gan yr undebau ffermio, ffermwyr ifanc, y Rhwydwaith Ffermio er Lles Natur, Confor, a Cyswllt Amgylchedd Cymru.

### Craffu ar y Gyllideb

Gwnaeth y Pwyllgor graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 ar 18 Ionawr a

chyhoeddi ei adroddiad erbyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar 5 Chwefror gyda dadl ar y Gyllideb Ddrafft yn cael ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn y diwrnod canlynol. Yna cynhaliwyd dadl a phleidlais ar y Gyllideb Derfynol yn y Cyfarfod Llawn ar 5 Mawrth.

### Masnach a Phorthladdoedd

Yn dilyn ymweliad yr Aelodau â Phorthladd Caergybi fis Mehefin diwethaf, a sesiynau tystiolaeth a gynhaliwyd yn nhymor yr hydref, bu'r Pwyllgor yn trafod Model Gweithredu Targed y Ffin a Fframwaith Windsor gyda'r Farwnes

Lucy Neville-Rolfe DBE CMG, Gweinidog Gwladol yn Swyddfa'r Cabinet ar 7 Chwefror.

## Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a Gweinidog yr Economi. Cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau gyda'r ddau Weinidog ddydd Mercher 6 Mawrth.

### Blaenraglen waith

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith hyd at haf 2024. Mae'r rhaglen waith a gyhoeddwyd yn nodi amcanion y Pwyllgor adeg ei chyhoeddi, ond gall y rhaglen newid ar unrhyw adeg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol. Mae disgwyl i waith y Pwyllgor gynnwys parhau i edrych ar Fanc Datblygu Cymru; y Cynllun Ffermio Cynaliadwy; a'r Economi Werdd a sgiliau ar gyfer sero net. Bydd y Pwyllgor hefyd yn clywed gan aelodau o'r cabinet a benodir gan y Prif Weinidog newydd; yn ymgymryd ag ymweliad Pwyllgor; a'r cynlluniau i fynd i Sioe Frenhinol Cymru ym mis Gorffennaf.

# Cylch gorchwyl

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021, gyda chylch gorchwyl yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

# Aelodau'r Pwyllgor



**Cadeirydd y Pwyllgor: Paul Davies AS**

Ceidwadwyr Cymreig



**Hefin David AS**

Llafur Cymru



**Luke Fletcher AS**

Plaid Cymru



**Samuel Kurtz AS**

Ceidwadwyr Cymreig



**Vikki Howells AS**

Llafur Cymru



**Buffy Williams AS**

Llafur Cymru